Taith

# Taith – Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol Cymru ar gyfer Dysgu

Llwybr 2 - 2022 Galwad Cyllid

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud yn benodol â galwad cyllid ar gyfer Llwybr 2 Taith. Ceir gwybodaeth gyffredinol am y rhaglen Taith, gan gynnwys nodau ac amcanion Taith, meini prawf cymhwysedd, y broses asesu, y gwaith rheoli prosiect a chyfraddau'r grantiau yng Nghanllaw'r Rhaglen Graidd (dolen). Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i ddarllen drwy Ganllaw'r Rhaglen Graidd yn ogystal â'r wybodaeth benodol am y Llwybr dan sylw a gynhwysir yn y ddogfen hon cyn cwblhau cais.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Geirfa | 3 |
| 1. Cyflwyniad i Lwybr 2 | 6 |
| 2. Pwy all wneud cais / gymryd rhan yn Llwybr 2 | 8 |
| 2.a. Sectorau cymwys | 9 |
| 2.b. Dwyochredd | 9 |
| 3. Gwybodaeth am y Llwybr | 10 |
| 3.a. Themâu | 11 |
| 3.b. Allbynnau prosiectau | 12 |
| 3.c. Lledaenu | 12 |
| 4. Gwneud cais ar gyfer Llwybr 2 | 13 |
| 4.a. Amserlen | 14 |
| 4.b. Cyn cyflwyno cais | 14 |
| 4.c. Llenwi cais | 15 |
| 5. Asesu | 16 |
| 5.a. Asesu ceisiadau | 17 |
| 5.b. Llwybr 2 Meini Prawf Asesu | 17 |
| 6. Cymhwysedd | 19 |
| 6.a. Cyllid | 20 |
| 6.b. Hyd y prosiectau | 20 |
| 6.c. Gweithgareddau a chostau cymwys | 21 |
| 7. Cyfraddau Grant Llwybr 2 | 23 |

# Geirfa

**Allbwn y prosiect** Adnodd/deunydd/syniad diriaethol sy’n cael ei ddatblygu o ganlyniad i’r bartneriaeth gydweithredol ryngwladol a fydd yn cael ei rannu/ledaenu ar draws y sector(au).

**Buddiolwr** Pan gaiff ei gymeradwyo ar gyfer cyllid prosiect, daw'r sefydliad sy'n gwneud cais yn Fuddiolwr y cyllid grant ac mae'n gyfrifol am lofnodi'r cytundeb grant.

**Consortiwm** Dau neu ragor o sefydliadau sy'n cydweithio i ddatblygu a chyflawni prosiect neu weithgaredd o fewn prosiect.

**Costau cymwys** Swm y grant (sy'n seiliedig fel arfer ar gyfradd grant) sy'n gysylltiedig â chynnal gweithgareddau prosiect.

**Cyllid dwbl** Ariennir y costau ar gyfer yr un gweithgaredd ddwywaith drwy ddefnyddio arian cyhoeddus. Er eglurder, ni chaniateir hyn ac ystyrir ei fod yn torri telerau ac amodau'r Cytundeb

**Cynrychiolydd cyfreithiol** Y person sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol i gynrychioli sefydliad ac sydd â'r awdurdod cyfreithiol i ymrwymo i gontract cyfreithiol rhwymol, gan gynnwys, yng nghyd-destun Taith, yr awdurdod i lofnodi Cytundeb Grant.

**Cyllideb prosiect** Cyfanswm yr arian a ddyrannwyd ar gyfer gweithgareddau y cytunwyd arnynt o fewn prosiect a ariennir gan Taith.

**Cyfraddau grant** Cyfraddau sefydlog sydd ar gael ar gyfer costau cymwys gwahanol.

**Cyfranogwr** Unigolyn sy'n ymgymryd â symudedd rhyngwladol corfforol/rhithwir neu gyfunol mewn prosiect a ariennir gan Taith.

**Cyfranogwr difreintiedig** Cyfranogwyr sy’n fyfyriwr neu’n berson ifanc sy'n cael eu hystyried dan anfantais yn unol ag un neu ragor o feini prawf Taith a byddant yn gymwys i gael cymorth ariannol ychwanegol. Gweler Atodiad 2 yng Nghanllaw'r Rhaglen am ragor o fanylion.

**Cytundeb Grant** Y cytundeb ysgrifenedig rhwng Taith a'r buddiolwr yn manylu ar delerau ac amodau'r dyfarniad cyllid a fydd wedi'i asesu i fod yn gyllidadwy ac wedi'i chymeradwyo i'w hariannu gan y pwyllgor perthnasol.

**Galwad am gyllid** Y cyfnod o amser pryd y gellir cyflwyno ceisiadau am gyllid.

**Grant** Y cyllid a ddyfernir gan Taith i sefydliad llwyddiannus sy'n gwneud cais.

**Gweithgaredd cymwys** Gweithgaredd sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yng Nghanllaw Rhaglen Taith.

**Gweithgareddau lledaenu** Y gweithgareddau a ddefnyddir i rannu allbwn y prosiect gyda sefydliadau/sector(au) eraill.

**Partneriaeth** Cytundeb ffurfiol rhwng dau neu ragor o sefydliadau i gymryd rhan mewn prosiect a ariennir gan Taith ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau dysgu ar y cyd.

**Prosiect** Gweithgareddau wedi'u trefnu a'u cynllunio y cytunir arnynt er mwyn cyflawni amcanion a chanlyniadau clir.

**Rhyngwladol** Yng nghyd-destun Taith, unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

**Sefydliad cymwys** Sefydliad sy'n gallu gwneud cais am gyllid Taith.

**Sefydliad partner** Term generig ar gyfer unrhyw sefydliad sy'n ymwneud yn ffurfiol â phrosiect a ariennir gan Taith, lle mae perthynas neu ryngweithio'n rhan o'r prosiect. Gall gynnwys y sefydliadau hynny a nodwyd fel sefydliad sy'n gwneud cais, cydlynydd, sefydliad sy'n derbyn neu sefydliad sy'n anfon yn ogystal ag eraill sy'n ymwneud â chyflawni'r prosiect.

**Sefydliadau sy'n anfon** Sefydliadau sydd wedi'u cofrestru ac sy'n gweithredu y tu allan i'r DU ac yn anfon cyfranogwyr i sefydliad lletyol yng Nghymru yn ystod symudedd corfforol. Diffinnir sefydliadau anfon cymwys yn adrannau sector-benodol Canllawiau'r Rhaglen.

**Sefydliad sy'n derbyn** Pan fydd unigolion neu grwpiau'n cymryd rhan mewn lleoliad wyneb yn wyneb drwy Taith, y sefydliad sy'n derbyn fydd eu sefydliad lletyol. Gellir cyfeirio at y sefydliad hwn yn aml fel lletywr neu bartner sefydliad rhyngwladol. Diffinnir sefydliadau derbyn cymwys yn adrannau sector-benodol Canllawiau'r Rhaglen.

**Sefydliad sy'n gwneud cais** Y sefydliad yng Nghymru sy'n cyflwyno cais am gyllid i Taith. Gall sefydliad sy'n gwneud cais wneud hynny naill ai'n unigol neu ar ran consortiwm, sy'n cynnwys sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r prosiect.

**Symudedd Allanol** Cyfranogwyr o sefydliadau cymwys yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a gefnogir gan Taith mewn sefydliadau sy'n derbyn y tu allan i'r DU (neu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, y tu allan i Gymru mewn sefydliadau sy'n derbyn yng ngweddill y DU).

**Symudedd mewnol** Cyfranogwyr o sefydliadau anfon cymwys sy'n dod i Gymru i gymryd rhan yn un o raglenni Taith.

**Teithio Gwyrdd** Dulliau trafnidiaeth cynaliadwy, h.y. teithio sy'n defnyddio dulliau trafnidiaeth ag allyriadau isel ar gyfer prif ran y daith. Er enghraifft, bysiau, trenau neu rannu ceir.

# 1. Cyflwyniad i Lwybr 2

# 1. Cyflwyniad i Lwybr 2

## Yr egwyddor tu ôl i Lwybr 2 yw datblygu prosiectau cydweithredol rhyngwladol dan arweiniad sefydliadau yng Nghymru.

Bydd y llwybr hwn yn cyllido partneriaethau rhyngwladol a arweinir yng Nghymru i ddatblygu allbwn prosiect sy'n mynd i'r afael â mater penodol neu flaenoriaeth o'r sector. Rhaid i'r allbynnau prosiect hyn fod yn ddiriaethol ac o werth i sefydliadau eraill a/neu'r sector(au) yn ehangach. Bydd pob galwad cyllido Llwybr 2 wedi nodi themâu, gan sicrhau bod prosiectau a'u hallbynnau yn cyd-fynd â blaenoriaethau a pholisïau Cymreig yn y sectorau addysg ac ieuenctid, a galluogi dysgu traws-sector pellach drwy greu rhwydweithiau o brosiectau'n seiliedig ar themâu cyffredin. Ceir rhagor o fanylion am themâu Llwybr 2 2022 yn adran 3.1.

Drwy gymryd rhan yn y prosiectau, bydd staff a dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth, eu gwybodaeth a'u defnydd o thema neu bwnc allweddol. Drwy gynhyrchu a lledaenu allbwn, dylai prosiectau Llwybr 2 hefyd anelu at greu manteision ehangach yn y tymor hir i sefydliadau sy'n cymryd rhan, i'r sector(au) ac i Gymru a'r partneriaid rhyngwladol. Bydd y prosiectau hyn felly'n chwarae rhan wrth gyfrannu at hyrwyddo amcanion rhaglen Taith a/neu gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiadau polisi mewn gwahanol sectorau ledled Cymru a thu hwnt.

Mae symudedd yn parhau i fod yn elfen allweddol o weithgaredd Llwybr 2, ond nid manteision y symudedd i gyfranogwyr unigol yw ffocws prosiectau Llwybr 2. Yn hytrach, mae gweithgareddau symudedd yn hwyluso datblygiad a chwblhau allbwn y prosiect. Mae staff a dysgwyr yn gymwys i deithio'n rhyngwladol ar yr amod bod y symudedd hwn yn gwneud cyfraniad allweddol i ddatblygiad y prosiect. Ceir rhagor o fanylion am weithgareddau a chostau cymwys Llwybr 2 yn adran 6.3.

# 2. Pwy all wneud cais / gymryd rhan yn Llwybr 2

## 2.a. Sectorau cymwys

Mae cyllid Llwybr 2 ar gael i'r sectorau canlynol:

- Ysgolion
- Ieuenctid
- Addysg Bellach (AB) ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG)
- Addysg i Oedolion

Nid yw sefydliadau Addysg Uwch yn gymwys i geisio am gyllid ond gallant fod yn rhan o brosiect Llwybr 2 fel partner na chaiff ei gyllido.

**Prosiectau traws-sector**

Mae Taith yn deall yn iawn beth yw gwerth gweithio ar draws sectorau a manteision dod â sefydliadau ar draws gwahanol sectorau ynghyd i weithio at nod cyffredin. Mae'r rhaglen felly'n cefnogi ac yn annog prosiectau traws-sector gan sefydliadau mewn gwahanol sectorau yn gweithio mewn partneriaeth.

Ceir manylion am weithgareddau, costau, hyd a chyfranogwyr cymwys ar gyfer prosiectau Llwybr 2 yn adran 6.3.

## 2.b. Dwyochredd

Mae egwyddorion dwyochredd a dysgu ar y cyd yn ganolog i Taith. Gall sefydliadau sy'n gwneud cais am arian ar gyfer prosiectau Llwybr 2 Taith wneud cais am arian ar gyfer gweithgareddau'r partner rhyngwladol. Bydd hyn yn cael ei gyfrifo fel uchafswm o 30% o gyfanswm cyllideb prosiect.

Ceir rhagor o fanylion am gyllid ar gyfer gweithgareddau partner rhyngwladol ac ar beth y gellir gwario'r cyllid yn yr adran cymhwysedd yn y ddogfen hon.

Bydd cyllid ar gyfer gweithgareddau partner rhyngwladol yn cael ei gynnwys yn y dyfarniad grant i'r sefydliadau o Gymru sy'n llwyddiannus a'u cyfrifoldeb nhw fydd gweinyddu'r arian hwn ar ran y sefydliad sydd yn anfon.

# 3. Gwybodaeth am y Llwybr

# 3. Gwybodaeth am y Llwybr

## 3.a. Themâu

Rhaid i brosiectau Llwybr 2 gyd-fynd ag o leiaf un o themâu Taith. Mae'r themâu ar gyfer galwad cyllid Llwybr 2 (2022) i'w gweld isod.

*Gosodir y themâu'n flynyddol a gallant newid yn y dyfodol.*

**Datblygiadau ym maes addysg**

Dylai prosiectau dan y thema hon gyd-fynd â datblygiad perthnasol sy'n digwydd o fewn sector y sefydliad sy'n cyflwyno cais. Os yw prosiectau ar draws sectorau, gall ymgeiswyr ddewis cyd-fynd â pha un bynnag sydd fwyaf perthnasol ar gyfer eu prosiect:

- Cwricwlwm i Gymru
- Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys gwaith y Bwrdd Gweithredu Gwaith Ieuenctid Strategol)
- Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (gan gynnwys y weledigaeth a'r dyletswyddau strategol ar gyfer y sector Addysg Oedolion)

**Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Gallai enghreifftiau o fewn y thema hon gynnwys (ond heb eu cyfyngu i):

- Dwyieithrwydd, amlieithrwydd a diwylliant Cymru
- Hunaniaeth a pherthyn
- Anghydraddoldeb, mynediad a chynhwysiant cymdeithasol

**Newid yn yr Hinsawdd**

Gallai enghreifftiau o fewn y thema hon gynnwys (ond heb eu cyfyngu i):

- Datblygiadau ym maes addysg newid yn yr hinsawdd
- Datgarboneiddio
- Addasu a Lliniaru

## 3.b. Allbynnau prosiectau

Ffocws Llwybr 2 yw creu allbynnau prosiect diriaethol, wedi'u llunio'n dda, y gellir eu mesur, ac sydd o werth i sefydliadau eraill a/neu'r sector(au) ledled Cymru.

Mae Taith yn agored i arloesedd a syniadau newydd ac mae'n croesawu ac yn annog sefydliadau sy'n gwneud cais i gynnig yr allbynnau prosiect sy'n gweithio orau iddyn nhw a'u sector.
Gallai allbynnau prosiect ddod mewn amrywiol fformatau megis ysgrifenedig, gweledol, fideo, gweithdai ac ati. Gallai enghreifftiau o allbynnau prosiect gynnwys (ond heb eu cyfyngu i):

- Modelau neu ddulliau newydd
- Adnoddau/pecynnau cymorth
- Deunyddiau hyfforddi/addysgu
- Adnoddau/allbynnau digidol

## 3.c. Lledaenu

Agwedd allweddol ar Lwybr 2 yw'r gofyniad bod allbynnau'r prosiect yn cael eu rhannu a'u lledaenu. Bydd angen i sefydliadau sy'n gwneud cais ddangos yn glir sut maent yn bwriadu rhannu canlyniadau eu prosiect, a gyda phwy. Rhaid i'r gweithgaredd lledaenu fod yn briodol ac yn hygyrch i'r sector(au), ac yn berthnasol i fformat a bwriad allbwn y prosiect. Gallai enghreifftiau o weithgareddau lledaenu gynnwys (ond heb eu cyfyngu i):

- Digwyddiad/cynhadledd/gweithdy
- Rhannu adnoddau drwy blatfform ar-lein, neu drwy ap
- Sesiynau hyfforddi i unigolion/sefydliadau allu datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth

# 4. Gwneud cais ar gyfer Llwybr 2

# 4. Gwneud cais ar gyfer Llwybr 2

## 4.a. Amserlen

**5 Hydref 2022:** Agor galwad cyllid Llwybr 2 (2022).

**1 Rhagfyr 2022, 12pm:** Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ni fydd ceisiadau sy’n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hasesu.

**2 Rhagfyr 2022, 12pm:** Dyddiad cau ar gyfer yr offeryn cyfrifo a’r rhestr wirio cymhwyster. Ni fydd yr offerynnau cyfrifo na’r rhestri gwirio cymhwysedd sy’n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hasesu.

**28 Chwefror 2023:** Anfon hysbysiad canlyniad i bob un o'r sefydliadau sy'n gwneud cais.

**1 Mai 2023:** Gall prosiectau ddechrau.

## 4.b. Cyn cyflwyno cais

Cyn dechrau paratoi cais, argymhellwn fod ymgeiswyr yn:

- Darllen Canllawiau’r Rhaglen Graidd.
- Cadarnhau bod y sefydliad yn gymwys i wneud cais.
- Darllen y canllawiau hyn yn drylwyr, yn enwedig y wybodaeth ynghylch gweithgareddau cymwys, cyfranogwyr a hyd prosiectau.
- Gwirio bod gan y sefydliad ddigon o gapasiti yn ariannol ac o ran gweithredu.
- Darllen meini prawf asesu Llwybr 2 – yn adran 5.2.
- Darllen adnoddau Llwybr 2 a dod i'r digwyddiadau arweiniol a thiwtorial ar gwblhau cais.
- Cysylltu â thîm Taith os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.

## 4.c. Llenwi cais

- I wneud cais am gyllid ar gyfer Llwybr 2, mae'n rhaid i sefydliadau ddefnyddio ffurflen gais Llwybr 2 a'r adnodd cyfrifo grant sydd ar gael trwy wefan Taith.
- Mae'r ffurflen gais yn gofyn am ymatebion naratif ar gyfres o gwestiynau gan gynnwys trosolwg o'r prosiect, manylion am y gweithgareddau arfaethedig ac allbwn y prosiect, sut y bydd y dysgu'n cael ei ledaenu, rheolaeth y prosiect a rheoli ariannol, a sut a pham y dewiswyd partneriaid rhyngwladol.
- Hefyd bydd yn ofynnol i sefydliadau sy'n gwneud cais gwblhau adnodd cyfrifo grant. Bydd hwn yn cyfrifo cyfanswm y grant a geisir yn seiliedig ar yr amrywiol weithgareddau y gwneir cais amdanynt. Ceir gwybodaeth am y cyfraddau grant ar gyfer pob Llwybr yn Atodiad 3 Canllawiau'r Rhaglen Graidd.
- Yn rhan o'r broses ymgeisio, bydd angen i sefydliadau gadarnhau a ydynt am wneud cais am gyllid cyfatebol ar gyfer symudedd mewnol. Yna bydd y cyllid sydd ar gael ar gyfer hyn yn cael ei gyfrifo'n awtomatig drwy'r adnodd cyfrifo grant.
- Asesir ceisiadau yn erbyn y meini prawf asesu ar gyfer Llwybr 2 a amlinellir yn adran 5.2. Argymhellir bod sefydliadau sy'n gwneud cais yn darllen drwy'r meini prawf asesu yn drylwyr cyn dechrau'r cais fel eich bod yn glir ynghylch yr hyn sydd yn y cais, a sut y caiff ei asesu.
- Ceir amrywiaeth o adnoddau ar wefan Taith sydd wedi'u creu i gefnogi sefydliadau gyda'u cais. Mae'r rhain yn cynnwys y cwestiynau ansoddol a'r meini prawf asesu, canllawiau cam wrth gam ynghylch gwneud cais a gwybodaeth wedi'i recordio ymlaen llaw ynghylch llenwi'r ffurflen gais.
- Anogir pob ymgeisydd i gwblhau'r adrannau cais ansoddol all-lein, ac yna eu copïo a'u gludo i'r ffurflen gais ar-lein. Bydd hyn yn eu galluogi i weithio drwy'r adrannau wrth eu pwysau, heb y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio ar-lein. Pan fyddant wedi llenwi'r ffurflen gais all-lein, gallant gopïo'r cynnwys, ei ludo yn y mannau perthnasol ar-lein a chyflwyno'r cais.
- Dim ond un cais y gall sefydliadau ei gyflwyno fesul sector, fesul galwad am geisiadau, ar gyfer pob Llwybr. Dylai ymgeiswyr sicrhau nad oes mwy nag un cais am yr un alwad am geisiadau ar gyfer Llwybr penodol yn cael eu cyflwyno gan wahanol bartïon yn yr un sefydliad.

# 5. Asesu

# 5. Asesu

Ceir gwybodaeth fanwl am broses asesu Taith a sut y gwneir penderfyniadau ynghylch cyllid yn adran 6 Canllawiau'r Rhaglen Graidd.

## 5.a. Asesu ceisiadau

Er mwyn cael ei ystyried am gyllid, rhaid i sefydliad sy'n gwneud cais ddangos yn y cais sut y mae'n bodloni meini prawf asesu Llwybr 2 (gweler isod). Bwriad y meini prawf yw galluogi Taith i werthuso ansawdd y ceisiadau sy'n dod i law a rhoi sgôr gyffredinol i bob cais. Bydd pob cais yn cael ei sgorio allan o uchafswm o 100, yn seiliedig ar y meini prawf a'r pwysoliadau isod.

Er mwyn i sefydliadau gael eu hystyried yn gymwys i'w cyllido, mae'n rhaid iddynt:

- Sgorio o leiaf 60 allan o gyfanswm o 100 ac
- Mae'n rhaid i o leiaf hanner y cyfanswm pwyntiau fod wedi'u hennill yn yr adran 'Perthnasedd ac ansawdd amcanion prosiect a chanlyniadau a gynllunnir'.

Bydd sefydliadau sy'n llwyddo i wneud yr uchod yn cael eu hystyried yn rhai y gellid eu cyllido. Bydd ceisiadau nad ydynt yn cwrdd â'r trothwy o ran meini prawf ansawdd yn cael eu hystyried yn aflwyddiannus. Beth bynnag fydd canlyniad y cais neu'r sgorio, caiff pob sefydliad sy'n gwneud cais adborth.

Mae cyllidebau dangosol Llwybr 2 fesul sector, ynghyd â gwybodaeth am uchafswm gwerth y symiau a geisir i'w gweld yn adran 6.

## 5.b. Llwybr 2  Meini Prawf Asesu

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer Llwybr 2 i'w gweld isod. Argymhellir yn gryf fod ymgeiswyr yn eu darllen yn drylwyr cyn dechrau cais.

| | Meini prawf asesu ar gyfer Llwybr 2 Taith – Partneriaeth a chydweithio strategol |
|---|---|
| **Perthnasedd ac ansawdd amcanion y prosiect a chanlyniadau a gynllunnir**<br><br>*(uchafswm sgôr 65 pwynt)* | • Dangosir i ba raddau y mae'r prosiect arfaethedig yn mynd i'r afael â mater penodol neu flaenoriaeth a gydnabyddir gan y sector yng Nghymru o fewn un o themâu Llwybr Taith 2 mewn modd clir a diriaethol.<br><br>• Y graddau y mae'r prosiect arfaethedig yn dangos gwerth ychwanegol clir i'r sefydliad(au) a'r sector(au).<br><br>• Y graddau y mae allbwn y prosiect arfaethedig yn ddiriaethol, wedi'i lunio'n dda, yn fesuradwy ac o werth i sefydliadau eraill a'r sector(au), yn ogystal â bod yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y prosiect, y sector a'r gynulleidfa.<br><br>• Dangosir perthnasedd a gwerth pob partner a enwir (Rhyngwladol ac yng Nghymru) yn glir, gyda rhesymu clir dros ddewis y partneriaid dan sylw.  Yn benodol, mae'r cais yn dangos pwysigrwydd y partner(iaid) rhyngwladol a'r gwerth ychwanegol a geir drwy'r cydweithredu rhywngwladol hwn.<br><br>• Mae'r sefydliad sy'n gwneud cais wedi dangos tystiolaeth bod ganddo ddigon o gapasiti gweinyddol cymesur â'r prosiect arfaethedig. Mae'r cynnig yn dangos dull ystyriol a phriodol ar gyfer rheoli'r prosiect o ddydd i ddydd, rheoli ariannol, a darparu cymorth/adnoddau i ddatblygu allbwn y prosiect. |

| | |
|---|---|
| | • Mae'r cais yn amlinellu ymrwymiad clir a chynlluniau cydlynol i sicrhau bod y prosiect yn gynhwysol a hygyrch, gan gynnwys yn y gefnogaeth y bydd yn ei rhoi i gyfranogwyr unigol (lle bo'n berthnasol).<br>• Mae'r sefydliad sy'n gwneud cais yn dangos bod ganddo fesurau diogelu / dyletswydd gofal priodol ar gyfer yr holl weithgareddau arfaethedig.<br>• Mae'r mesurau a gynigir i fonitro gweithgareddau a chynnydd y prosiect a'r cynlluniau i werthuso llwyddiant ei ganlyniadau yn briodol ac yn realistig.<br>• Mae'r cais yn dangos ei bod yn werth yr arian ac yn darparu disgrifiad a rhesymeg glir o'r cyllid a ofynnir amdano o fewn pob categori gweithgaredd. |
| **Ansawdd ac amcanion gweithgareddau arfaethedig**<br><br>*(hyd at 35 o bwyntiau)* | • Mae gweithgareddau'r prosiect wedi'u nodi a'u diffinio'n glir, ac yn diwallu anghenion a nodwyd.<br>• Mae'r gweithgareddau arfaethedig yn dangos dull realistig o gyflawni amcanion cyffredinol y prosiect.<br>• Ceir eglurhad a rhesymeg glir am yr holl weithgareddau sydd wedi'u cynllunio a nodir dan weithgarwch 'gwaith prosiect'.<br>• Mae rhesymeg glir dros lefel y cyllid y gofynnir amdano ac mae'n gymesur â graddfa'r prosiect.<br>• Mae'r cynlluniau i ledaenu allbwn y prosiect wedi'u nodi'n glir, yn briodol i'r prosiect, y gynulleidfa a'r sector, ac yn sicrhau y bydd canlyniadau'r prosiect yn cael eu rhannu â chynulleidfa eang yng Nghymru (ac yn rhyngwladol os yn berthnasol).<br>• Pan fydd gweithgareddau symudedd wedi'u cynllunio, darperir esboniad clir am sut y bydd y rhain yn gwneud cyfraniad allweddol i ddatblygiad y prosiect, ac mae'r dewis o gyfranogwyr yn briodol ac yn berthnasol.<br>• Os na fydd symudedd corfforol, neu os bydd nifer isel o symudedd mewn cais, darperir rhesymeg a thystiolaeth glir am sut bydd y bartneriaeth yn datblygu a sut bydd yr allbwn yn cael ei greu. |

# 6. Cymhwysedd

Mae'r adran hon yn manylu ar yr holl wybodaeth am gyllid sydd ar gael, gweithgareddau cymwys, cyfranogwyr, costau a hyd y prosiect.

## 6.a. Cyllid

Ni chaniateir dyblu gweithgareddau cyllido a gyllidir eisoes drwy raglenni cyllido cenedlaethol neu ryngwladol eraill. Fodd bynnag, caniateir cyd-gyllido gweithgareddau gyda rhaglenni eraill. Os bydd prosiectau yn cael eu cyd-gyllido, dylai'r sefydliadau sydd yn cyflwyno cais ddarparu manylion am y trefniadau hyn yn y cais.

**Cyllid ar gael fesul sector**

| Sector | Cyllid llwybr 2 (galwad 2022) |
|---|---|
| Ysgolion | £0.4m |
| Ieuenctid | £0.37m |
| Addysg Bellach ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol | £0.9m |
| Addysg i Oedolion | £0.44m |

**Dyraniadau cyllid**

Mae cynwysoldeb a hygyrchedd yn ffocws strategol ar gyfer Taith ac mae'r rhaglen yn edrych i gyllido ystod mor eang â phosibl o sefydliadau, a chymaint ohonynt â phosib. O'r herwydd, uchafswm y dyfarniad i brosiectau Llwybr 2 fydd £75,000.

Bydd Taith yn anelu at gyllido'r holl sefydliadau sy'n pasio'r broses asesu ac yr ystyrir eu bod yn gyllidadwy. Fodd bynnag, mae cyllid Taith yn gyfyngedig ac mae'n debygol y ceir galwadau am geisiadau lle bydd gwerth y ceisiadau llwyddiannus sy'n 'gymwys i'w cyllido' yn uwch na'r gyllideb sydd ar gael i'w dyrannu. Lle nad oes digon o gyllideb i gyllido'r holl geisiadau llwyddiannus yn llawn, bydd ceisiadau'n cael eu hargymell ar gyfer cyllid yn eu trefn restrol, fesul sector, nes bod cyllideb Pathway 2 sydd ar gael ar gyfer pob sector wedi'i hymrwymo'n llawn.

## 6.b. Hyd y prosiectau

Hyd holl brosiectau Llwybr 2 yw:

- 12 mis
- 18 mis
- 24 mis

## 6.c. Gweithgareddau a chostau cymwys

Bydd Llwybr 2 yn cyllido gweithgareddau sy'n arwain at greu, datblygu a lledaenu allbynnau prosiect sy'n rhoi sylw i un o'r themâu a nodwyd gan Taith.

Gweler manylion ar weithgareddau cymwys isod. Heblaw am symudedd, mae cap ar ganran y dyfarniad cyllid prosiect y gellir ei ddefnyddio ar gyfer pob gweithgaredd. Wrth lenwi'r ffurflen gais a'r offeryn cyfrifo grant, a fyddech cystal â sicrhau nad yw'r costau gweithgaredd yn fwy na'r cap canrannol ar gyfer pob categori gweithgaredd, ac nad yw cyfanswm y grant y gwneir cais amdano yn fwy na £75,000.

Rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais ddarparu manylion a chyfiawnhad clir yn y ffurflen gais ar gyfer y cyllid y gofynnir amdano ym mhob categori gweithgaredd, ac yn gyffredinol. Mae Llwybr 2 yn canolbwyntio ar ddatblygu cydweithrediad strategol, ac felly rhaid i geisiadau ddangos yn glir sut y bydd partneriaid Cymreig a rhyngwladol yn cydweithio i gyflawni nod cyffredin. Lle nad yw symudedd corfforol yn cael ei gynnwys, bydd angen i geisiadau ddarparu sail resymegol glir ar gyfer hyn a darparu tystiolaeth fanwl yn dangos sut y caiff y partneriaethau eu datblygu a sut caiff yr allbynnau eu creu drwy ddulliau eraill.

**Symudedd**

Nid oes cyfyngiad ar y gyfran o gyllid y gellir ei defnyddio ar gyfer symudedd, ar yr amod bod y rhain yn amlwg yn hwyluso datblygu a chwblhau allbwn y prosiect. Mae staff a dysgwyr yn gymwys i deithio'n rhyngwladol. Mae enghreifftiau yn cynnwys aelod o staff yn teithio i sefydliad partner dramor i ddysgu, datblygu dealltwriaeth, cydweithio ac ati. Mae symudedd dysgwyr yn bosibl lle mae sail resymegol glir dros eu rhan yn natblygiad allbwn y prosiect – naill ai fel cyd-grewyr neu i brofi/gwreiddio allbwn y prosiect. Mae symudedd dysgwyr cymwys yn cynnwys **symudedd grŵp** yn unig, nid yw symudedd dysgwyr unigol **yn gymwys** yn Llwybr 2.

*Nid oes cap ar ganran y cyllid y gellir ei ddefnyddio ar gyfer symudedd*

**Costau cymwys**

**Staff**

- Grant at ddibenion cynhaliaeth.
- Grant teithio, gan gynnwys ‘atodol gwyrdd’ ar gyfer opsiynau teithio gwyrddach. Bydd costau teithio eithriadol o/i ardal anghysbell hefyd yn cael eu hystyried.
- 100% o'r costau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer staff ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Bydd cyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan Taith yn ystod y cam dyfarnu grant at y diben hwn.

**Dysgwyr**

- Grant at ddibenion cynhaliaeth.
- Grant teithio, yn dibynnu ar bellter, gan gynnwys ‘ychwanegiad gwyrdd’ ar gyfer opsiynau teithio gwyrddach. Bydd costau teithio eithriadol o/i ardal anghysbell hefyd yn cael eu hystyried.
- 100% o’r costau gwirioneddol ar gyfer costau ychwanegol cysylltiedig â theithio e.e. fisas, pasbortau, yswiriant teithio, bagiau (lle bo angen) ar gyfer disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
- 100% o gostau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer disgyblion ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Bydd cyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan Taith yn ystod y cam dyfarnu grant at y diben hwn.

Mae costau symudedd cymwys ar gyfer pob sector yr un fath â chyfraddau symudedd staff a dysgwyr fesul sector ar gyfer Llwybr 1. Lle mae prosiectau'n draws-sectoraidd, bydd y cyfraddau sector ar gyfer y sefydliad y mae'r staff neu'r dysgwr yn gysylltiedig ag ef yn berthnasol. Mae cyfraddau grant ar gyfer symudedd i’w gweld yn Adran 7.

**Rheoli a gweithredu prosiect**

Cyfraniad at gostau i alluogi'r gweithgaredd i ddigwydd. Gallai'r rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, logi ystafell gyfarfod, lluniaeth, costau hwyluso, cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd, costau gweinyddol ac ati.

**Nid** yw costau staff yn gymwys o dan y gweithgaredd hwn.

Mae cyfraniad at y gost hon yn uchafswm o 25% o ddyfarniad cyllid cyffredinol y prosiect.

**Costau staff**

Mae hyn yn gyfraniad at y costau staffio sydd eu hangen i alluogi'r prosiect i ddigwydd. Dim ond ar gyfer costau staffio sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygu, creu a lledaenu allbwn y prosiect y gellir defnyddio cyllid yn y categori hwn.

Mae cyfraniad at y gost hon yn uchafswm o 30% o ddyfarniad cyllid cyffredinol y prosiect.

Cyfrifir costau staff ar gyfradd ddyddiol. Ceir manylion y cyfraddau dyddiol fesul categori staff yn adran 7.

**Costau lledaenu**

Cyfraniad at gostau rhannu a lledaenu allbwn y prosiect ar draws y sector(au) yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae costau cymwys yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddigwyddiadau, marchnata, cynhyrchu adroddiadau, datblygu adnoddau ar-lein, datblygu cymhwysiad digidol neu lwyfan ar-lein.

Nid yw costau staff yn gymwys o dan y gweithgaredd hwn.

Rhaid i unrhyw weithgareddau/adnoddau lledaenu a grëir trwy Taith Llwybr 2 fod yn rhad ac am ddim i bawb sy'n cymryd rhan a pharhau felly cyhyd ag y cânt eu defnyddio/rhannu. Ni ellir datblygu'r adnoddau hyn na'u defnyddio at ddibenion masnachol.

*Mae cyfraniad at y gost hon yn uchafswm o 35% o ddyfarniad cyllid cyffredinol y prosiect.*

**Costau cyfieithu**

Cyfraniad at gostau cyfieithu yn ymwneud â chynhyrchu a lledaenu allbwn y prosiect. Mae costau cymwys yn cynnwys cyfieithu deunyddiau sy'n ymwneud ag allbwn y prosiect, cyfieithu ar y pryd ar gyfer digwyddiadau, sesiynau hyfforddi a seminarau ac ati.

**Nid** yw costau staff yn gymwys o dan y gweithgaredd hwn.

*Mae cyfraniad at y gost hon yn uchafswm o 10% o ddyfarniad cyllid cyffredinol y prosiect.*

# 7. Cyfraddau Grant Llwybr 2

**Symudedd:**

| Categori cyllideb | IEUENCTID & YSGOLION Cyfradd grant (£) | AB & AHG, ADDYSG OEDOLION Cyfradd grant (£) | Disgrifiad categori |
|---|---|---|---|
| **CYNHALIAETH i:** | | | Grant yw hwn (a gyfrifir fel cyfraniad cost uned) yn seiliedig ar hyd symudedd corfforol a'r wlad gyrchfan. |
| **DYSGWYR** (cyfradd ddyddiol) | Cyfradd ddyddiol fesul grwp gwlad 1 / 2 / 3: | Cyfradd ddyddiol fesul grwp gwlad 1 / 2 / 3: | Mae hwn yn grant a gyfrifir fel cyfradd ddyddiol/ wythnosol (=7 diwrnod)/misol (=28 diwrnod) ac mae'n gyfraniad tuag at gostau'r cyfnod symudedd a gynlluniwyd yn seiliedig ar hyd symudedd a chyrchfan. |
| Pythefnos cyntaf (cyfradd ddyddiol) | 55/50/45 | 109/94/80 | |
| 2-8 wythnos (cyfradd ddyddiol) | 40/35/30 | 76/66/56 | |
| **PERSON SY'N GWMNI** (cyfradd ddyddiol) | Yr un fath â DYSGWYR | Yr un fath â DYSGWYR | Wedi'i ddiffinio fel person i fynd gyda chyfranogwyr symudedd lle bo angen fel rhan o ddiogelu, dyletswydd gofal, at ddiben gweithgareddau symudedd grŵp tymor byr a arweinir gan staff, neu ar gyfer amgylchiadau eraill y gellir eu cyfiawnhau. |
| **STAFF** (cyfradd ddyddiol) | | | mae'r dyfarniad yn gyfraniad tuag at gostau cynhaliaeth a gyfrifir fel cyfraniad cost uned, yn seiliedig ar hyd symudedd a chyrchfan. Disgwylir i sefydliadau buddiolwyr ddilyn eu polisïau a'u prosesau ariannol sefydliadol ar gyfer ad-dalu costau teithio, gan gynnwys ynghylch taliadau ar wariant â derbynebau. |
| Pythefnos cyntaf (cyfradd ddyddiol) | 85/75/65 | 85/75/65 | |

| Categori cyllideb | IEUENCTID & YSGOLION Cyfradd grant (£) | AB & AHG, ADDYSG OEDOLION Cyfradd grant (£) | Disgrifiad categori |
|---|---|---|---|
| 2-8 wythnos (cyfradd ddyddiol) | 60/50/40 | 60/50/40 | |
| 8 wythnos- 12 mis (cyfradd ddyddiol) | 35/30/25 | 35/30/25 | |
| **TEITHIO / TEITHIO GWYRDD:** | **Pob cyfranogwr i bob gwlad:** yn unol â'r band pellter isod. | **Pob cyfranogwr i bob gwlad:** yn unol â'r band pellter isod. | Bydd cyllid ar gael tuag at gost uniongyrchol teithio a bydd yn dibynnu ar y pellter rhwng y sefydliadau sy'n anfon a'r sefydliadau sy'n derbyn. Mae hwn yn gyfraniad tuag at gost taith gron. Bydd swm grant teithio uwch ar gael i gyfranogwyr sy'n defnyddio opsiynau 'Teithio Gwyrdd' amgylcheddol gynaliadwy. |
| 10 i 99km | 20 | 20 | |
| 100 i 499km | 150/180 | 150/180 | |
| 500 i 1,999km | 230/270 | 230/270 | |
| 2,000 i 2,999km | 300/350 | 300/350 | |
| 3,000 i 3,999km | 450/520 | 450/520 | |
| 4,000 i 7,999km | 700 | 700 | |
| 8,000 i 12,000km | 1200 | 1200 | |
| 12,000km+ | 1400 | 1400 | |
| **CYMORTH CYNHWYSIANT:** | | | |

| Categori cyllideb | IEUENCTID & YSGOLION Cyfradd grant (£) | AB & AHG, ADDYSG OEDOLION Cyfradd grant (£) | Disgrifiad categori |
|---|---|---|---|
| **Cyfranogwyr gydag Anableddau a/neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** | 100% o gostau cymwys | 100% o gostau cymwys | Dysgwyr sydd ag anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.<br><br>***Sylwer:*** *Bydd cyfran o'r cyllid yn cael ei ddal yn ôl yn ganolog, gan Weithrediaeth y Rhaglen, ar y cam dyfarnu grant a'i weinyddu ar sail costau gwirioneddol unwaith y bydd y buddiolwyr yn nodi cyfranogwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a chymorth ychwanegol sydd ei angen.* |
| Cyfranogwyr o **Gefndir difreintiedig**: (costau teithio eithriadol a chostau cynhaliaeth ychwanegol) | Cyfradd ddyddiol safonol wedi'i gosod ar lefel i fod yn gynhwysol | Cyfradd ddyddiol safonol wedi'i gosod ar lefel i fod yn gynhwysol | Mae'r diffiniad a'r meini prawf yn benodol i'r sector ac fe'u disgrifir yng Nghanllawiau'r Rhaglen Graidd. |
| Cyfranogwyr o **Gefndir difreintiedig:** (costau teithio drud eithriadol a chostau cynhaliaeth ychwanegol) | 100% o'r costau cymwys gwirioneddol yn ymwneud â chostau teithio | 100% o'r costau cymwys gwirioneddol yn ymwneud â chostau teithio | Costau eithriadol yn ymwneud â theithio gan gynnwys costau fisas, pasbortau, brechiadau, profion COVID-19, yswiriant iechyd, dillad a bagiau priodol, yn ôl yr angen. Yn berthnasol i gostau teithio o/i ardal anghysbell hefyd.<br><br>***Sylwer:*** *Bydd cyfran o'r cyllid yn cael ei ddal yn ôl yn ganolog, gan Weithrediaeth y Rhaglen, ar y cam dyfarnu grant a'i weinyddu ar sail costau gwirioneddol unwaith y bydd cyfranogwyr ag anghenion ADY a chymorth ychwanegol sydd ei angen wedi'u nodi gan fuddiolwyr.* |
| **COSTAU EITHRIADOL** | | | |

| Categori cyllideb | IEUENCTID & YSGOLION Cyfradd grant (£) | AB & AHG, ADDYSG OEDOLION Cyfradd grant (£) | Disgrifiad categori |
|---|---|---|---|
| Teithio drud eithriadol | 80% o'r gost wirioneddol, os nad yw'r swm gwreiddiol a ddarparwyd yn cwmpasu o leiaf 70% | 80% o'r gost wirioneddol, os nad yw'r swm gwreiddiol a ddarparwyd yn cwmpasu o leiaf 70% | Costau teithio o/i ardal anghysbell (dim ond ar gyfer y rhai sy'n gymwys i dderbyn grant teithio).<br><br>***Sylwer:*** *Mae cyfranogwyr o grwpiau difreintiedig yn gymwys i gael 100% o'r costau gwirioneddol ar gyfer teithio eithriadol o ddrud o dan y categori 'costau eithriadol cysylltiedig â theithio', fel yr amlinellir uchod.* |
| Costau eithriadol oherwydd Cofid | 100% o'r costau gwirioneddol | 100% o'r costau gwirioneddol | Costau sy'n cwmpasu costau eithriadol sy'n gysylltiedig â Cofid, **yn benodol** lle mae statws y wlad gyrchfan yn newid yn ystod symudedd, gan achosi i'r cyfranogwr fynd i gostau ychwanegol sylweddol oherwydd gofyniad i gwarantîn mewn cyfleuster pwrpasol, cydymffurfio â gofynion profi uwch neu debyg. |

**Costau staff:**

Mae cyfraniad at gostau staffio sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygu, creu a lledaenu allbwn y prosiect yn cael ei gyfrifo ar gyfradd ddyddiol, yn unol â'r categori/lefel staff:

| **Swyddogaeth** | **Cyfradd ddyddiol (£)** |
|---|---|
| Aelod Staff Uwch / Rheolwyr | 255 |
| Athrawon/ Hyfforddwyr / Ymchwilwyr / Gweithwyr Ieuenctid | 209 |
| Staff CYmorth Arbenigol | 165 |
| Staff Gweinyddol | 136 |

Taith

Rhaglen sy’n cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru yw Taith. Mae’n cael ei harwain gan International Learning Exchange Programme (ILEP) Ltd, corff gweithredol Taith sy’n un o is-gwmnïau Prifysgol Caerdydd.

© 2022 ILEP Ltd